Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**27 TACHWEDD 2019**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Adnoddau a Chwmpas GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu adnoddau a chwmpas presennol y gwasanaeth rhanbarthol.

**2.0 Cefndir**

2.1 Sefydlwyd Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2013.

2.2 Yn sgil sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddogfen Ganllawiau yn amlinellu Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol (Chwefror 2014).

2.3 Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru sy'n dal y cyfrifoldeb statudol am effeithiolrwydd a safonau ysgolion.

2.4 Bu i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo cynllun gweithredu'r targed arbedion effeithlonrwydd yn y cyfarfod diwethaf, felly gweithredwyd toriad o £206,485 yn y gyllideb am eleni.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Hyd yma, nid yw GwE wedi cael syniad o be ddaw yn y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn modelu'r effaith posibl.

3.2 Amlinella'r adroddiad gwmpas gwaith y gyllideb graidd ar lefel ysgol ac ALl.

3.3. Y brif genhadaeth a’r pwrpas yw cefnogi ysgolion i wella drwy:

- ddarparu her a chymorth i ysgolion wella deilliannau dysgwyr
- cydlynu a hwyluso datblygiad proffesiynol y gweithlu
- gwella'r gallu i arwain er mwyn datblygu system sy'n hunan wella.

3.4 Hefyd yn yr adroddiad, amlinellir gofynion Llywodraeth Cymru i gyflawni ac adrodd yn erbyn eu blaenoriaethau a'u systemau grant.

**4.0 Argymhelliad**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau ar yr adroddiad y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol/Risgiau**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Trafodwyd yr adroddiad efo Bwrdd Rheoli GwE a Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae’r adroddiad yma yn rhoi cyfle priodol i’r Cyd-Bwyllgor gymryd trosolwg o sefyllfa GwE yng nghyd destun y sefyllfa ariannol gyfredol. Mae yn gydnaws a’i ròl yn goruchwylio gwaith y gwasanaeth.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf gywirdeb y ffeithiau / ffigyrau ariannol sy’n paragraff 2.4 o’r adroddiad blaen ac yn rhan gyntaf yr atodiad. Nodaf o’r atodiad manwl yr ystod eang iawn o raglenni a gweithgareddau mae GwE yn gyfrifol amdano. Wrth gwrs, byddai’n fwy buddiol pe bai’r Llywodraeth yn dyrannu’r arian

heb amodau'r holl grantiau penodol, gyda mwy o hyblygrwydd a grym i ni flaenoriaethu'r holl adnoddau o fewn y rhanbarth.